

Gwyneth Glyn

Enw Gwyneth Glyn

Dyddiad Geni 14 Rhagfyr 1979

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Fy ngeni yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor ac yna fy magu yn Llanarmon, Eifionydd.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Gynradd Nefyn; Ysgol Glan y Môr, Pwllheli; Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli a Choleg Iesu, Rhydychen.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Athrawon (hoffi rhai a chasáu eraill).

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Actores ac awdures.

Beth oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn? *The Selfish Giant*, Oscar Wilde, *The Faraway Tree Adventure*, Enid Blyton.

Beth yw eich hoff ddiddordebau? Chwarae gitâr, crwydro, pobol eraill.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Bod yng nghwmni pobl ddifyr.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Diogi, hunanoldeb a rhagfarn (ynof fi fy hun gymaint ag eraill).

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu? Erioed wedi meddwl am y peth! Greddf ac arfer, am wn i.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? *Bolwyn y dyn eira*, Gwasg Carreg Gwalch

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu? Ydw – sgwennu'n dda sy'n anodd!

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? O ran o 'mhen nad ydw i eto wedi llwyddo i'w leoli, na'i reoli.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Yr un cyngor ag a roddodd Wil Sam i mi – 'Sgwennu, sgwennu a sgwennu!'

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu selio arnoch chi? Ar agweddau ohonof fi fy hun, oes.

Pa un yw eich hoff lyfr? *Lolita*, Nabokov; *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, Robin Llywelyn.

Pa un yw eich hoff gymeriad? Traethydd *Lolita*.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Fy anallu i hedfan.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? *C'mon Midffild*, *Fawlty Towers*, *Fondue*, *Rhyw a Deinosors*.

Beth yw eich hoff fwyd? Risotto bwyd môr a siocled tywyll iawn

Beth yw eich hoff gân? Baledi gitâr e.e. 'Blackbird' y Beatles, a 'Bethan mewn cwsge' Meic Stevens.

Beth yw eich hoff ffilm? *Il Postino*, *Grease* a *Darker in the Dark*.

Beth yw eich hoff atgof? Syrthio mewn cariad am y tro cyntaf.

Beth yw eich hoff le yn y byd? Gwinllan fy nghartra.

Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? Fy mamiaith a 'nheulu – cymryd y ddau'n ganiataol.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Taid, pobol sy'n cymryd eu hunain ormod o ddifri, fi fy hun.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? Oes, miloedd! Darllenwch ac fe ddatgelir i chi!



Hefo actor yn dad, ac athrawes yn fam, ma hi'n anodd dianc rhag straeon. A pham y baswn i isho dianc beth bynnag? Ers pan oeddwn i'n ddim o beth, straeon oedd fy ffrindiau. A'm dwy chwaer hŷn wedi gadael am y coleg, hefo straeon fyddwn i'n chwarae; a minnau'n byw yng nghanol nunlla, straeon fyddai'n cadw cwmni imi; a minnau heb ddysgu reidio beic, straeon fyddai'n fy niddanu, fy nychryn, gneud imi chwerthin a gneud imi grio.

Cyn imi syrthio i gysgu bob nos, mi fyddai Dad neu Mam yn darllen straeon hud a lledrith imi. Mi fyddwn innau'n breuddwydio am gewri a gwrachod ac anifeiliaid gwylltion, a deffro'n gymeriad yn fy stori fy hun – yn dywysoges, môrforwyn neu un o'r tylwyth teg, a'm tylwyth fy hun (druan ohonyn nhw) yn cael eu gorfodi i fod yn gymeriadau yn y stori!

Dwn i ddim pryd y dechreuais i sgwennu fy straeon fy hun, ond dwi'n cofio teimlo cyffro iasol wrth ddal y feiro (neu'r bensil) yn fy llaw fach, syllu ar y dudalen wag a meddwl "Waw! Mi fedr UNRHYW BETH ddigwydd rŵan!"

Parhau a chynyddu ddaru'r cyffro hwnnw, ac er imi fwynhau dysgu yn Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli a Choleg Meirion-Dwyfor am waith llenorion eraill – Kate Roberts, Caradog Prichard, Saunders Lewis – doedd dim byd yn fy nghyffroi gymaint â'r ddalen wag honno o'm blaen.

Wnes i ddim parhau i astudio llenyddiaeth; doeddwn i ddim isho darllen gwaith awduron eraill – roeddwn i isho creu! Felly mi es i Goleg Iesu yn Rhydychen i

astudio Athroniaeth a Diwinyddiaeth – pynciau sy'n llawn gwrthdaro, syniadau difyr a phobol ryfeddol – jyst y peth ar gyfer stori dda!

Mae'n swinio'n amlwg, ond mae'n rhaid i sgwennwr gael profiadau yn ogystal â dychymyg. Ond does dim rhaid dringo Everest na nofio hefo dolffiniaid er mwyn cael profiad gwerth sgwennu amdano; os sylwch chi'n ofalus, gall sgwrs ar y bws neu ddarlun mewn siop, neu hyd yn oed grac yn y pafin fod yn ddechrau – neu'n ddiwedd – stori wych ...


LLYFRAU GWYNETH GLYN

Bolwyn yn y Sioe nadolig Bolwyn a'r Dyn Eira Cas

Gwasg Carreg Gwalch, 2000, £2.95 yr un

Mewn Limbo (Cyfres Pen Dafad)

Y Lolfa, 2003, £2.95



Llanian | Dewi Wyn